Dŵr Cymru
Welsh Water

# Hysbysiad Preifatrwydd Dŵr Cymru

## Sut rydyn ni’n defnyddio’ch Data Personol

dwrcymru.com

Tachwedd 2024

Rydyn ni'n deall pa mor bwysig yw hi i chi ein bod ni'n gofalu am eich data personol. Cael pobl i ymddiried ynom i wneud y peth iawn yw un o'n gwerthoedd craidd. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yma'n esbonio sut rydyn ni'n casglu, yn defnyddio, yn rhannu ac yn amddiffyn eich Data Personol mewn ffordd sy'n parchu eich hawliau Diogelu Data ac yn cydymffurfio â chyfreithiau Diogelu Data y DU (gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018).

## 1. Amdanom ni

Cwmni dŵr a charthffosiaeth nid er elw yw Dŵr Cymru. Mae'n darparu cyflenwad parhaus o ddŵr yfed o safon uchel ar gyfer dros dair miliwn o bobl, ac yn cludo dŵr gwastraff i ffwrdd, ei drin a'i waredu mewn ffordd briodol yn ein hardal gyflenwi, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru a rhannau o Lannau Dyfrdwy a Sir Henffordd. Dŵr Cymru yw enw masnachu Dŵr Cymru Cyfyngedig. At ddibenion y cyfreithiau Diogelu Data, Dŵr Cymru Cyfyngedig yw'r Rheolwr Data (swyddfa gofrestredig Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT) a rhif y cwmni 02366777).

## 2. Sut i gysylltu â ni

I gael rhagor o fanylion am ein Hysbysiad Preifatrwydd, neu os oes unrhyw sylwadau neu arsylwadau gennych amdano neu am sut rydyn ni'n delio â'ch Data Personol:

E-bostiwch ein Swyddog Diogelu Data yn: **DataProtectionOfficer@dwrcymru.com**; neu

Ysgrifennwch at ein Swyddog Diogelu Data yn: Swyddog Diogelu Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT.

I ymarfer unrhyw un o'ch hawliau fel Gwrthrych Data (gweler isod am ragor o fanylion):

E-bostiwch ni yn: DataSubjectRightsRequests@dwrcymru.com; neu

Ysgrifennwch atom yn: Gwasanaethau Cwsmeriaid, Tîm Ceisiadau Hawliau Gwrthrych Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT.

Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn **ico.org.uk** neu 0303 123 1113 i ofyn am wybodaeth neu gyngor, neu i godi cwyn.

## 3. Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich Data Personol

Ni fyddwn ni'n prosesu eich Data Personol oni bai: bod gennym yr hawl gyfreithiol i wneud hynny; bod prosesu'n angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur; a bod hynny'n gyson â'r ffordd rydyn ni'n disgrifio'r peth yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

### Rhwymedigaethau cyfreithiol a hawliau statudol

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith prosesu a gyflawnwn yn Dŵr Cymru mewn perthynas â'ch Data Personol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni un o'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu hawliau statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth statudol (e.e. cyflenwi dŵr glân ar eich cyfer; gwaredu dŵr gwastraff; rheoli ein rhwydwaith; hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr; codi a chasglu ein taliadau; lleihau dyledion; a'n dyletswydd i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant ein cyflogeion).

### Budd Cyhoeddus Sylweddol

Rydyn ni'n dibynnu ar "Fudd Cyhoeddus Sylweddol" i brosesu unrhyw Ddata Personol neu Ddata Personol Sensitif a ddarparwch ar ein cyfer ni (neu sy'n dod i'n meddiant fel arall) at ddibenion addasu ein gwasanaethau at eich anghenion.

Mae hyn yn cynnwys lle rydyn ni'n defnyddio'ch data personol i'ch amddiffyn rhag niwed neu i ddiogelu eich buddiannau (lle'r ydyn ni'n credu bod angen gwneud hynny, neu lle'r ydych chi'n dweud wrthym fod angen cymorth arnoch) trwy eich cofrestru ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR) fel y gallwn ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnoch, ac fel y gallwn sicrhau eich bod chi'n cael cymorth blaenoriaeth os bydd toriad yn eich cyflenwad neu argyfwng gweithredol arall.

Cofrestr yw'r PSR sy'n cynnwys manylion unigolion â gofynion penodol (e.e. oherwydd oedran, iechyd, anhwylder meddygol neu ofynion cyfathrebu ychwanegol) lle mae hynny'n golygu hwyrach fod angen i ni gysylltu â'r unigolion hynny mewn ffordd benodol neu fel mater o flaenoriaeth os oes toriad yn y cyflenwad neu argyfwng gweithredol arall. Mae cadw gwybodaeth ar y PSR yn golygu y gallwn ymateb yn gyflym ac addasu ein gwasanaethau er mwyn sicrhau eich bod chi'n cael y cymorth sydd ei angen arnoch. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i ni anfon tîm i'r cyfeiriad os nad yw rhywun yn gallu cyfathrebu dros y ffôn, neu mae'n bosibl y bydd angen cludo dŵr potel i'r drws os oes anhwylder meddygol penodol gan rywun.

Trwy gynnwys eich data personol ar ein PSR, gallwn rannu eich data personol â sefydliadau eraill yn eich ardal y mae eu rôl yn cynnwys eich cadw chi'n ddiogel neu ddiogelu eich buddiannau, fel darparwyr cyfleustodau eraill, y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, fel bod modd iddynt eich helpu mewn argyfwng hefyd.

Am fanylion pellach am ein PSR, cliciwch **yma**. Os byddwn ni'n eich ychwanegu at y PSR am fod sefydliad arall wedi rhoi gwybod i ni am eich anghenion ychwanegol, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi.

Os nad ydych chi am dderbyn Gwasanaethau Blaenoriaeth trwy fod ar y PSR, gallwch roi gwybod i ni trwy un o'r dulliau canlynol:

E-bostiwch ni yn: **DataSubjectRightsRequests@dwrcymru.com;**

Ysgrifennwch atom yn: Gwasanaethau Cwsmeriaid, Tîm Ceisiadau Hawliau Gwrthrych Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT; neu

Cliciwch yma i weld ein Ffurflen Gais Hawliau Gwrthrych Data, neu gallwch wneud cais trwy ein ffonio ni.

Rydyn ni'n dibynnu ar "Fuddiannau Cyhoeddus Sylweddol" hefyd i brosesu unrhyw Ddata Personol neu Ddata Personol Sensitif rydych chi'n ei ddarparu ar ein cyfer (neu yr ydym yn ei gael gennych fel arall) at ddibenion cofrestru eich aelwyd ar gynllun tariffau gostyngol lle'r ydym ni'n ymwybodol eich bod chi'n fregus yn ariannol (e.e. yn derbyn budd-daliadau) am resymau iechyd.

### Buddiannau Dilys

Lle nad oes angen i ni brosesu'r data er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu Fuddiannau Cyhoeddus Sylweddol (fel y disgrifiwyd uchod), ar y cyfan byddwn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i gyflawni ein busnes yn effeithlon a gwella ein gwasanaethau (e.e. i gynorthwyo ein gweithgareddau bilio a chasglu; er mwyn ein galluogi ni i ddarparu biliau fforddiadwy ar gyfer ein cwsmeriaid; cyflawni arolygon o foddhad cwsmeriaid neu ymchwil i'r farchnad; rhannu gwybodaeth am ymgyrchoedd fel "Stop Cyn Creu Bloc" a sut y gallwch ddefnyddio dŵr yn effeithlon).

Rydyn ni'n dibynnu ar fuddiannau dilys hefyd i brosesu Data Personol am gwsmeriaid (neu'r bobl sy'n byw gyda nhw) sydd mewn amgylchiadau bregus er mwyn diogelu buddiannau'r unigolion hynny trwy gofrestru eu haelwyd ar gynllun tariff gostyngol.

Rydyn ni'n sicrhau bob tro nad yw eich hawliau'n drech na'n buddiannau dilys, ac yn prosesu eich Data Personol mewn ffordd y byddech chi'n ei ddisgwyl yn rhesymol yn ein tyb ni (h.y. fel a bennir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd yma).

### Caniatâd

O dan amodau cyfyngedig, mae angen eich caniatâd arnom i brosesu eich Data Personol - er enghraifft, lle'r ydych chi'n darparu Data Personol Sensitif fel gwybodaeth feddygol neu iechyd mewn trafodaethau â ni am ein Tariffau Cymdeithasol (e.e. gwybodaeth am fudd-daliadau anabledd/salwch). Wrth i ni gasglu eich Data Personol Sensitif at y dibenion yma, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n cael eich caniatâd penodol i'w gasglu a'i gofnodi (a'i rannu ag eraill os yw hynny'n berthnasol), ac yn rhoi gwybod i chi sut y gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl os byddwch chi'n newid eich meddwl (gweler paragraff 11 am ragor o fanylion am eich hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl).

I gael rhagor o fanylion am ein Tariffau Cymdeithasol, cliciwch yma.

Rydyn ni'n dibynnu ar Ddeddf yr Economi Digidol 2017 i:

1. dderbyn data personol gan awdurdodau lleol am gwsmeriaid sy'n debygol o fod mewn tlodi dŵr fel y gallwn eich ychwanegu at ein tariffau cymdeithasol yn awtomatig (a chaniatáu i chi fanteisio ar ein cynlluniau cymorth ariannol eraill); ac i
2. rannu a derbyn data personol cwsmeriaid gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn clustnodi cwsmeriaid sy'n derbyn budd-daliadau cymwys i'n galluogi ni i glustnodi cymhwyster ar gyfer tariffau cymdeithasol.

## 4. Pa Ddata Personol ydyn ni'n ei gasglu amdanoch, a pham

Rydyn ni'n casglu gwahanol fathau o Ddata Personol gennych yn dibynnu sut rydych chi'n dewis cysylltu â ni, a'n perthynas â chi.

Gallwn gasglu Data Personol gennych trwy'r dulliau canlynol:

- wrth sefydlu (neu ddiwygio) eich cyfrif gyda ni;
- wrth i chi gysylltu â ni i roi gwybod fod dŵr yn gollwng, bod tagfa mewn pibell neu broblem arall gyda'ch cyflenwad, neu i dalu bil (a allai gynnwys ni'n dod allan i'ch eiddo neu rhoi galwad fideo i chi i ymchwilio i broblem);
- wrth i chi gysylltu â ni trwy lythyr, ffonio, e-bost neu sgwrs fyw;
- wrth i chi gysylltu â ni trwy'r cyfryngau cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth am ei defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd am y Cyfryngau Cymdeithasol sydd ar gael yma: **https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/legal-privacy/social-media-policy**;
- wrth i chi ymgeisio am dariff cymdeithasol neu fynd ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth;
- os byddwch chi'n cysylltu â'n Tîm Gwasanaethau Datblygu mewn perthynas ag adeiladu datblygiad newydd, adnewyddu cyflenwad dŵr sy'n bodoli eisoes, gwneud cais am brif bibell ddŵr neu wneud cais i hunan-osod prif bibellau dŵr a gwasanaethau;
- os galwch chi i'n swyddfeydd, canolfannau ymwelwyr neu ganolfannau addysg fel ymwelydd. Dylid nodi bod CCTV yn ein swyddfeydd, canolfannau ymwelwyr a chanolfannau addysg, felly gallech gael eich recordio wrth ymweld â ni. Mae yna arwyddion i ddangos i chi pryd rydych chi'n mynd i ardal sy'n cael ei monitro gan CCTV. Cedwir delweddau CCTV am 30 diwrnod cyn eu dileu (oni bai bod yna reswm busnes dilys i ni eu cadw'n hirach na hynny). Os hoffech chi gael rhagor o fanylion am ein defnydd o CCTV, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Dŵr Cymru,
- wrth godi cwyn gyda ni;
- wrth ymweld a chyrchu ein gwefan. I gael rhagor o fanylion am hyn, darllenwch ein hysbysiad cyfreithiol;
- weithiau byddwn ni'n defnyddio systemau awyrol di-griw (dronau) i fonitro, cynnal a/neu wella ein tiroedd, ein hasedau a'n prosesau. Peilotiaid awdurdodedig y CAA sydd yng nghyflogaeth Dŵr Cymru neu gontractwyr trydydd parti fydd yn hedfan y dronau. Rydyn ni'n ceisio osgoi hedfan dronau'n union uwchben neu o fewn 50 metr i bobl, cerbydau, cychod neu eiddo. Byddwn ni'n cyfyngu ar faint o Ddata Personol a gesglir wrth ddefnyddio dronau cymaint ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol trwy gasglu recordiadau/delweddau ar sail angen yn unig (trwy beidio â dechrau recordio nes bod y drôn yn ei le ac nid wrth esgyn neu lanio oni bai bod hynny'n angenrheidiol), a'u cadw cyhyd ag y bo angen, a byddwn ni'n hysbysu unigolion bod y recordio'n digwydd (trwy godi hysbysiad).

Mae'r Data Personol y gallwn ei gasglu gennych yn cynnwys:

- Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a rhif ffôn poced;
- Dyddiad geni i'n helpu ni i'ch adnabod. Dyddiadau geni yw un o'r pethau mwyaf unigryw i glustnodi unigolyn, a thrwy ofyn i chi ddarparu eich dyddiad geni, gallwn ei ddefnyddio i ddilysu pwy ydych chi. Mae hyn yn ein cynorthwyo ni i sicrhau taw ein cwsmeriaid yn unig gaiff gyrchu eu cyfrifon, a bydd yn ein cynorthwyo ni i amddiffyn eich Data Personol hefyd;
- Eich rhif Yswiriant Gwladol os oes angen y wybodaeth yma arnom ni i'w rhannu â'r Adran Gwaith a Phensiynau;
- Manylion eich cyfrif banc os ydych chi'n talu trwy ddebyd uniongyrchol;
- Manylion eich cerdyn debyd a/neu gredyd os ydych chi am dalu eich bil â cherdyn;
- Manylion incwm, gwariant a gwybodaeth arall am fforddiadwyedd (gan gynnwys manylion budd-daliadau) os ydych chi'n ymgeisio am un o'n tariffau cymdeithasol;
- Gwybodaeth feddygol neu iechyd fel y gallwn addasu ein gwasanaethau at eich anghenion (e.e. os gofynnwch am gael eich cynnwys ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth);
- Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt eich landlord;
- Manylion eich cyd-ddeiliaid a/neu aelodau o'ch teulu (gan gynnwys plant);
- Manylion enwebeion os ydych chi wedi enwebu trydydd parti i siarad â ni am eich cyfrif;
- Rhif cyfresol eich mesurydd a gwybodaeth am ddefnydd;
- Gwybodaeth sy'n angenrheidiol i brosesu hawliadau yswiriant.

— Recordiadau fideo neu ddelweddau o broblem rydym yn ymchwilio iddi yn eich eiddo;

— Hanes o ran gwasanaethau (e.e. llifogydd carthion, pwysedd isel);

— Nodweddion ffisegol fel eich golwg a'ch osgo, a rhifau cofrestru cerbydau, wedi eu cofnodi trwy CCTV a dronau. Caiff unrhyw Ddata Personol a gesglir ei wneud yn ddienw wrth brosesu data.

— Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'n prosesau adfer dyledion (e.e. eich hanes talu).

Rydyn ni'n defnyddio'r Data Personol a gasglwn gennych at y dibenion canlynol:

### I gysylltu â chi am eich cyflenwad dŵr a/neu ein gwasanaethau

I roi gwybod i chi os oes problem weithredol yn eich ardal, toriad yn eich cyflenwad, neu broblem o ran ansawdd dŵr; i'ch diweddaru am gynlluniau buddsoddi cyfalaf neu waith arall yn eich ardal; i roi gwybod i chi am effeithlonrwydd dŵr neu ymgyrchoedd stop cyn creu bloc.

— Byddwn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel cwmni dŵr a charthffosiaeth a'n buddiannau dilys i wneud hyn.

— Gallwn ddibynnu ar Fudd Cyhoeddus Sylweddol i wneud hyn o bryd i'w gilydd hefyd os ydych chi ar ein PSR (a ddisgrifir yn fwy manwl isod).

### Gweinyddu cyfrifon

I weinyddu eich cyfrif, casglu taliadau, adfer symiau sy'n ddyledus i ni, prosesu hawliadau a llywio ein prosesau adfer dyledion. Gallai hyn gynnwys ymgynghori â'r cofnodion sydd gan asiantaethau gwirio credyd amdanoch (gweler isod am fanylion pellach) ynghylch cyfrifon newydd, cyfrifon a dalwyd ac unrhyw ddyledion nad ydynt yn cael eu had-dalu'n llawn yn brydlon.

— Byddwn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel cwmni dŵr a charthffosiaeth a'n buddiannau dilys i wneud hyn.

### Eich tariffau

Fel y gallwn gymhwyso tariff sy'n briodol i'ch amgylchiadau chi. Byddwn ni'n adolygu eich tariff yn rheolaidd - yn flynyddol fel rheol - gan ddefnyddio gwybodaeth bilio o'ch cyfrif gyda ni (yn ogystal â gwybodaeth gan CThEF a landlordiaid cymdeithasol). Os ydych chi'n gymwys i symud i gynllun tariff gostyngol( fel HelpU neu WaterSure Cymru), gallwn symud eich cyfrif i dariff gostyngol, a rhoi gwybod i chi fod hyn wedi cael ei wneud. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf ar gyfer ein cynlluniau tariffau gostyngol, a beth sy'n digwydd pan fo amgylchiadau eich aelwyd yn newid, yn dwrcymru.com. Os nad ydych chi am gael eich ystyried ar gyfer cynllun tariff gostyngol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod neu trwy ffonio 0800 052 0145.

— Byddwn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel cwmni dŵr a charthffosiaeth a'n buddiannau dilys i wneud hynny;

— Byddwn ni'n dibynnu ar Fuddiant Cyhoeddus Sylweddol lle bo tariff gostyngol yn cael ei weithredu ar eich cyfrif am eich bod chi'n fregus yn ariannol (h.y. yn derbyn budd-daliadau) am resymau iechyd.

### Gweinyddu ein Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid

Er mwyn gweinyddu unrhyw gais a gyflwynwch i'n Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid (fe gewch chi ragor o fanylion am beth mae hyn yn ei olygu wrth gyflwyno'ch cais); ac er mwyn casglu taliadau'n uniongyrchol o unrhyw fudd-daliadau lles cymwys lle bo hynny'n berthnasol.

— Byddwn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel cwmni dŵr a charthffosiaeth i wneud hynny.

### Addasu sut rydyn ni'n darparu gwasanaethau at eich anghenion chi (e.e. trwy addasu sut rydyn ni'n ymdrin â'ch cyfrif neu i'ch ychwanegu at y PSR)

Os oes angen penodol gennych (e.e. oherwydd oedran, iechyd, anhwylder iechyd neu ofynion cyfathrebu ychwanegol) sy'n golygu bod angen i ni addasu ein gwasanaethau at eich anghenion neu gysylltu â chi mewn ffordd benodol neu fel mater o flaenoriaeth os oes toriad yn eich cyflenwad neu argyfwng gweithredol arall.

— Byddwn ni'n dibynnu ar Fuddiant Cyhoeddus Sylweddol, neu fuddiannau dilys, i wneud hynny.

### Gwella ein gwasanaethau

Yn ein hymdrechion parhaus i wella'n dulliau o weithio:

— At ddibenion hyfforddi neu brofi systemau

- I gynhyrchu ystadegau, dadansoddeg a dadansoddi i wella ein gwasanaethau a'n darpariaeth, ar gyfer rheolaeth ac adroddiadau mewnol, ac at ddibenion rheoliadol.

- I edrych ar eich perthynas â ni a chysylltu â chi i'ch gwahodd i gymryd rhan yn ein harolygon o gwsmeriaid (a all gael eu cyflawni gan drydydd parti ar ein rhan).

  — Byddwn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel cwmni dŵr a charthffosiaeth a'n buddiannau dilys i wneud hyn.

### Gofynion rheoliadol

Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau, safonau'r diwydiant, codau ymarfer a chanllawiau mewn perthynas â'n statws rheoledig a gofynion cyfreithiol cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys (er enghraifft) os cewch chi ddamwain ar ein safle a bod angen i ni ei gofnodi yn unol â'r cyfreithiau iechyd a diogelwch.

- Rydyn ni'n dibynnu ar ein gofynion statudol a/neu reoliadol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth i wneud hynny.

### Cynhyrchion a gwasanaethau effeithlonrwydd dŵr

— Mae cyfrifoldeb a dyletswydd gyfreithiol arnom i hybu effeithlonrwydd dŵr. Gallwn hybu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd dŵr. Gallwn gysylltu trydydd parti i ddarparu'r gwasanaeth yma ar ein rhan.

— Rydyn ni'n hyrwyddo Water Aid, sef elusen a sefydlwyd gan y Diwydiant Dŵr i ddarparu dŵr yfed glân i bawb, neu elusennau perthnasol eraill o bryd i'w gilydd hefyd.

— Byddwn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i gyflawni'r gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, os ydych chi am ymarfer eich hawl i wrthwynebu cysylltiadau o'r fath gennym ni, rhowch wybod i ni.

## 5. Y Data Personol amdanoch y byddwn ni'n ei gasglu gan eraill a pham

Gallwn gasglu Data Personol amdanoch gan eraill trwy'r dulliau canlynol:

— Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig - fel y gallwn ddarparu ein gwasanaethau ar eich cyfer, ac os yw'n berthnasol, cymhwyso tariffau cymdeithasol yn awtomatig;

— Adrannau'r Llywodraeth – i helpu gyda cheisiadau gennych am dariffau cymdeithasol;

— Awdurdodau lleol – fel y gallwn ddarparu ein gwasanaethau ar eich cyfer, ac os yw'n briodol, cymhwyso tariffau cymdeithasol yn awtomatig;

— Os ydych chi'n denant, gallwn gasglu eich data gan eich landlord neu trwy Landlord Tap Limited, lle maent wedi eich hysbysu chi eu bod nhw'n rhannu'r data, at ddibenion yr oll ofynion bilio gan gynnwys casglu ac olrhain dyledion, a gorfodi (lle bo hynny'n briodol);

— Cyfleustodau neu sefydliadau eraill yn eich ardal fel ysbytai a'r gwasanaeth tân, yn rhan o'n gwasanaethau PSR;

— Os ydych chi'n landlord, gallwn ofyn i chi am eich data neu ei gasglu gan Landlord Tap Limited at y dibenion hyn;

— Asiantaethau gwirio credyd, asiantaethau adfer ac olrhain dyledion – er mwyn gwirio pwy ydych chi, dilysu cywirdeb y wybodaeth rydych chi wedi ei darparu ar ein cyfer, rheoli eich cyfrif, gwella ein prosesau casglu dyledion, llywio ein penderfyniadau mewn perthynas â'n gweithgareddau bilio a chasglu, ein helpu ni i olrhain dyledion, casglu arian sy'n ddyledus i ni, ac atal gweithgareddau troseddol, twyll a gwyngalchu arian. Gweler yr adran "Asiantaethau Gwirio Credyd" isod a'n **Hysbysiad Preifatrwydd am rannu Data â CRAs** **sydd ar gael ar ein gwefan** am fanylion. Mae rhagor o fanylion am CRAs a sut maen nhw'n defnyddio ac yn rhannu Gwybodaeth Bersonol yn yr Hysbysiad Gwybodaeth am Asiantaethau Gwirio Credyd ("CRAIN") (sydd ar gael trwy'r linc yma: www.experian.co.uk/crain.

## 6. Y wybodaeth amdanoch y byddwn yn ei rhannu ag eraill, a pham

Gallwn rannu eich manylion â thrydydd partïon fel a ganlyn:

— Gydag unrhyw gwmnïau yng ngrŵp Dŵr Cymru i'w defnyddio yn yr un ffordd â ni, ac i gael darlun cyffredinol o'ch perthynas â'r grŵp. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hyn;

— Gyda Landlord Tap Limited os ydych chi'n denant (ac mae eich landlord wedi eich hysbysu chi) neu'n landlord, at ddibenion yr holl ofynion bilio gan gynnwys casglu dyledion, olrhain a gorfodi (lle bo hynny'n briodol). Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hyn;

— Lle bo'n briodol, gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol, er mwyn helpu i atal, canfod ac erlyn troseddau, neu lle'r ydyn ni'n teimlo ei bod hi'n briodol gwneud hynny er mwyn amddiffyn ein busnes, gweithwyr a chwsmeriaid. Rydyn ni'n gwneud hyn yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol;

— Adrannau'r Llywodraeth - lle'r ydyn ni'n credu y gallech fod yn derbyn budd-daliadau cymdeithasol, gallwn gyflwyno cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau i dalu ein taliadau'n uniongyrchol o'ch budd-daliadau. Byddwn ni'n rhannu eich enw, eich dyddiad geni a'ch manylion bilio er mwyn penderfynu ar gymhwyster a gweinyddu taliadau uniongyrchol i ni. Byddan nhw'n eich hysbysu chi os bwriedir gwneud taliad uniongyrchol, neu am unrhyw newidiadau o ran cymhwyster. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hyn;

— Awdurdodau lleol – i helpu i reoli eich cyfrifon/trefniadau bilio. Rydyn ni naill ai'n gwneud hynny mewn perthynas â'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny;

— Rheoleiddwyr ac asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol i gyflawni eu swyddogaethau neu ein rhai ni, neu lle bo gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny. Mae rhwymedigaeth arnom hefyd i rannu eich Data Personol gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed mewn perthynas â digwyddiad ansawdd dŵr. Rydyn ni'n gwneud hyn yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol;

— Darparwyr cyfleustodau eraill (fel cwmnïau ynni) neu sefydliadau yn eich ardal fel ysbytai neu'r gwasanaeth tân yn rhan o'n gwasanaethau PSR lle'r ydyn ni'n credu bod yna Fudd Cyhoeddus Sylweddol neu Fuddiant Dilys i wneud hynny;

— Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill sy'n bilio ar ein rhan neu rydyn ni'n bilio ar eu rhan;

— Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill (gan gynnwys Penodiadau Newydd ac Amrywiadau) sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer eich eiddo, at ddibenion sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir (fel manylion mesuryddion gan gynnwys darlleniadau, newidiadau i fanylion yr eiddo, gwybodaeth am ddeiliadaeth) er mwyn eu galluogi i ddarparu biliau cywir am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu;

— Asiantaethau gwirio credyd, asiantaethau adfer ac olrhain dyledion – er mwyn gwirio pwy ydych chi, dilysu cywirdeb y wybodaeth rydych chi wedi ei darparu ar ein cyfer, rheoli eich cyfrif, ein helpu ni i olrhain dyledion, casglu arian sy'n ddyledus i ni ac atal gweithgareddau troseddol, twyll a gwyngalchu arian. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hyn. Gweler yr adran "Asiantaethau Gwirio Credyd" isod am ragor o fanylion, yr Hysbysiad Preifatrwydd ar rannu Data â CRA sydd ar ein gwefan, a chliciwch yma am ragor o fanylion ar y CRAs ac ar sut maen nhw'n defnyddio Data Personol yn y CRAIN;

— Ein partneriaid eraill sy'n darparu gwasanaethau ar eich cyfer, fel y trafodir yn fanylach yr adran "Ein Partneriaid Dibynadwy"). Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny.

### Asiantaethau Gwirio Credyd

Wrth agor cyfrif gyda ni, trwy gydol y cyfnod pan fydd eich cyfrif yn agored gyda ni, a phan fyddwch chi'n cau eich cyfrif, gallwn ddilysu eich cofnodion gyda'r CRAs i ddilysu pwy ydych chi, dilysu pa mor gywir yw'r wybodaeth rydych wedi ei darparu, ac atal a datgelu troseddau, cymryd camau olrhain ac adfer, ac atal twyll a gwyngalchu arian. Mae ein harchwiliadau dilysu'n ein galluogi ni i gael darlun o ymddygiad ariannol ein cwsmeriaid hefyd er mwyn clustnodi cwsmeriaid sydd mewn perygl o fynd i ddyled, fel y gallwn dargedu cymorth perthnasol ar eu cyfer (e.e. tariffau cymdeithasol).

Pan fydd CRAs yn derbyn archwiliad dilysu gennym, bydd hyn yn gosod ôl-troed chwilio y gall benthycwyr eraill ei weld ar eich ffeil credyd. Mae'r CRAs yn darparu gwybodaeth gyhoeddus (gan gynnwys y gofrestr etholiadol) a gwybodaeth am gredyd ac atal twyll sy'n cael ei rannu o fewn grŵp caeedig o CRAs ar ein cyfer. Rydyn ni'n dilysu eich cofnodion gydag Asiantaethau Atal Twyll (FPAs) hefyd.

Rydyn ni'n cyflawni archwiliadau dilysu i'n helpu ni i asesu amledd a thelerau talu hefyd. Gallwn gyflawni archwiliadau dilysu cyfnodol gyda CRAs ac FPAs i reoli eich cyfrif gyda ni hefyd (e.e. er mwyn dilysu manylion y deiliaid).

Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am yr holl gyfrifon sydd wedi eu setlo fel y gallwn ni a'n cwsmeriaid elwa ar gyrchu ffynonellau data, ac mae hyn yn cyfrannu hefyd at ecosystem ariannol gynaliadwy, gan helpu i atal twyll, gorddyledion a sicrhau benthyca cyfrifol. Mae rhannu cofnodion talu cadarnhaol gyda CRAs yn fuddiol i statws credyd cwsmeriaid (am ei bod yn dangos eu bod nhw'n talu ein biliau'n llawn ac yn brydlon), a gallant gynyddu mynediad at gyfleusterau credyd rhatach.

Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am gyfrifon sydd mewn dyled er mwyn ein helpu ni i wneud penderfyniadau mwy teg am gasglu dyledion, ac er mwyn atal diffyg talu dyledion.

Os oes arnoch arian i ni ac nad ydych chi'n ei ad-dalu'n llawn ac yn brydlon, bydd CRAs yn cofnodi'r ddyled sy'n weddill. Os ydyn ni'n ystyried bod eich cyfrif mewn diffyg, byddwn ni'n eich hysbysu chi, ac os na fyddwch chi'n ein talu ni, byddwn ni'n hysbysu'r CRAs am y ddyled. Gall CRAs ac FPAs ddarparu'r wybodaeth yma ar gyfer sefydliadau eraill sy'n cyflawni archwiliadau tebyg ac er mwyn eich olrhain chi os ydych wedi symud heb rannu'r cyfeiriad newydd fel y gallant adfer eich dyledion. Bydd y cofnodion yn aros ar y ffeil am 7 mlynedd ar ôl eu cau, dim ots am eich ymddygiad talu.

Os ydyn ni wedi nodi diffygdaliad ar eich cyfrif mewn cyfeiriad blaenorol, ac nad yw'r ddyled yn cael ei chlirio, byddwn ni'n cau'r diffygdaliad os yw'r ddyled yn cael ei chyfuno yn eich cyfeiriad newydd. Gallwn bennu diffygdaliad ar y ddyled gyfunol os na fyddwch chi'n talu'n llawn ac yn brydlon ar gais.

Os byddwch chi'n darparu gwybodaeth ffug neu anghywir ar ein cyfer a'n bod ni'n amau neu'n clustnodi twyll, byddwn ni'n cofnodi hyn, a gallwn rannu'r wybodaeth yma ag FPAs a sefydliadau eraill sydd ynghlwm wrth atal troseddau a thwyll.

Os byddwch chi'n symud ac nad ydych chi'n gwneud y taliadau sy'n ddyledus i ni, byddwn ni'n eich olrhain i adfer y dyledion.

Os dywedwch chi wrthym fod gennych briod neu bartner ariannol, byddwn ni'n cysylltu eich cofnodion felly rhaid i chi fod yn sicr fod gennych eu cydsyniad i ddatgelu gwybodaeth amdanynt. Bydd CRAs yn cysylltu eich cofnodion hefyd, a bydd y cysylltiadau hyn yn aros ar eu ffeil ac ar eich un chi nes eich bod chi neu eich partner yn ffeilio'n llwyddiannus am ddatgysylltiad gyda'r CRAs er mwyn torri'r cysylltiad hwnnw.

I gael rhagor o fanylion am sut rydyn ni'n rhannu eich data personol gyda CRAs, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd ar Rannu Data â CRAs sydd ar gael ar ein gwefan.

Rydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth â'r CRAs canlynol ar hyn o bryd:

TransUnion
www.transunion.co.uk/consumer/consumer-enquiries

Experian
www.ins.experian.co.uk/contact

Equifax
www.equifax.co.uk/Contact-us/Contact_Us_Personal_Solutions

Mae rhagor o fanylion am gredyd a CRAs yng nghanllaw'r Comisiynydd Gwybodaeth; 'Credit Explained': www.ico.org.uk/your-data-matters/credit

Gallwch gael rhagor o fanylion am y CRAs a sut maen nhw'n defnyddio ac yn rhannu Data Personol yn Hysbysiad Gwybodaeth yr Asiantaeth Gwirio Credyd (CRAIN) trwy glicio **yma.**

## Arolygon Ofwat

Gellir trosglwyddo gwybodaeth gyswllt yr holl gwsmeriaid sy'n cysylltu â ni i broseswr trydydd parti sy'n gweithredu ar ran Ofwat, ein rheoleiddiwr dŵr, at ddibenion arolygon y Mesur o Brofiad y Cwsmer ("C-Mex"), Mesur o Brofiad y Cwsmer Busnes ("B-Mex") neu'r Mesur o Brofiad Gwasanaethau Datblygu ("D-Mex"). Mae hyn yn helpu i reoleiddio gwasanaethau cwsmeriaid yn y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr. Gall y trydydd parti yma gysylltu â chi am y gwasanaeth rydych wedi ei gael gan Ddŵr Cymru, a gofyn i chi roi sgôr am ein perfformiad. Nid galwad marchnata fydd hwn. Rydyn ni'n rhannu eich Data Personol ag Ofwat yn rhan o'n gofynion statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth. Os nad ydych chi am i ni rannu eich manylion ag Ofwat (a'r trydydd partïon sy'n gweithredu ar eu rhan), rhowch wybod i ni trwy anfon neges e-bost atom yn: **DataProtectionOfficer@dwrcymru.com** neu ysgrifennu atom yn: Swyddog Diogelu Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT.

## Arolygon Eraill

Gallwn ddefnyddio trydydd parti, neu ein gweithwyr ein hunain, i helpu i gysylltu â'n cwsmeriaid i gyflawni arolygon o foddhad cwsmeriaid neu brosesau ymgysylltu. Nid galwadau marchnata fydd y rhain, ac mae eich ymateb yn bwysig iawn i ni. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hyn. Os nad ydych am gymryd rhan, rhowch wybod i ni trwy anfon e-bost atom yn: **DataProtectionOfficer@dwrcymru.com** neu ysgrifennu atom yn: Swyddog Diogelu Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT.

Dylid nodi na fydd hyn yn atal gohebiaeth at ddibenion cyflenwi ein gwasanaethau dŵr neu ddŵr gwastraff na chan ein rheoleiddiwr. Mae angen i ni rannu eich manylion cyswllt â thrydydd partïon sy'n gweithio ar ran Ofwat, ein rheoleiddiwr dŵr, o hyd at ddibenion C-Mex, B-Mex neu D-Mex (fel a amlinellwyd uchod).

## Ein Partneriaid Dibynadwy

Rydyn ni'n defnyddio nifer o bartneriaid dibynadwy i'n cynorthwyo neu i gyflawni gweithgareddau ar ein rhan a/neu i wella ein gwasanaethau ar eich cyfer. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hyn. Rydyn ni'n rhoi mesurau rheoli priodol ar waith o dan yr amgylchiadau hyn (gan gynnwys contract rhwymol sy'n cyfyngu ar eu mynediad at eich Data Personol a'u triniaeth ohono i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt gyflawni'r contract).

Rydyn ni'n defnyddio darparwyr meddalwedd ar gyfer gwahanol systemau, fel ein system bilio, ein system archebion gwaith a'n system darllen mesuryddion, i'n cynorthwyo â'r llwythi mawr o ddata y mae gofyn i ni eu rheoli. Rydyn ni'n defnyddio cwmnïau i'n cynorthwyo ni i argraffu biliau a chysylltiadau â chwsmeriaid ac i'n helpu ni i brosesu taliadau, gan gynnwys taliadau â cherdyn, cardiau talu a phrosesu sieciau. Rydyn ni'n defnyddio contractwyr i adnewyddu prif bibellau a thrwsio pibellau hefyd, a bydd modd iddynt gyrchu rhywfaint o'ch Data Personol sy'n berthnasol i'w gwaith. Rydyn ni'n defnyddio yswirwyr, trefnwyr hawliadau, addaswyr colledion, cyfreithwyr ac arbenigwyr ym maes prosesu hawliadau. Rydyn ni'n defnyddio cwmnïau trin hawliadau yswiriant i ymchwilio i hawliadau yn ein herbyn a'u prosesu hefyd.

## Cwyno

Os ydych am godi cwyn gyda ni, byddwn ni'n dilyn ein Gweithdrefn Gwyno sydd ar gael **yma**. Mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu manylion eich cwyn yn fewnol er mwyn ymchwilio'n drylwyr iddi. Os byddwch chi'n anfon eich cwyn ymlaen at y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CC Water), byddwn ni'n rhannu gwybodaeth â nhw er mwyn datrys eich cwyn. Dim ond er mwyn prosesu'r gŵyn yn unol â'r proses

cwynion y byddwn ni'n defnyddio'r Data Personol a gasglwn. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hyn.

## Open Water

Os ydych chi'n gwsmer busnes sy'n defnyddio mwy na 50 Ml o ddŵr y flwyddyn ar un safle o fewn ein hardal weithredu, byddwn ni'n rhannu gwybodaeth amdanoch â Market Operator Services Limited ("MOSL") sy'n hwyluso'r Rhaglen Open Water. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae MOSL yn defnyddio'ch gwybodaeth yn: www.mosl.co.uk/privacy-policies.

## 7. Ymhle y byddwn ni'n storio eich Data Personol a sut y byddwn yn ei gadw'n ddiogel

Mae holl Ddata Personol cwsmeriaid yn cael ei gadw ar ein system bilio yn y DU. Mae mynediad ato'n cael ei reoli ac mae mesurau seiberddiogelwch cadarn i'w amddiffyn. Cedwir rheolaeth dynn ar fynediad at ein holl systemau. Rydyn ni'n ymarfer diogelwch ffisegol llym ar bob un o'n safleoedd, a bydd ein holl weithwyr yn derbyn hyfforddiant diogelwch ac ymwybyddiaeth am Ddiogelu Data.

Lle'r ydyn ni'n trosglwyddo Data Personol i drydydd partïon er mwyn galluogi iddynt ei brosesu ar ein rhan (gweler y wybodaeth am Bartneriaid Dibynadwy uchod), rydyn ni'n sicrhau bod y darparwyr yn bodloni neu'n rhagori ar y gofynion rheoliadol perthnasol o ran trosglwyddo data iddyn nhw a'i gadw'n ddiogel.

Mae'n bosibl y bydd angen i ni drosglwyddo eich Data Personol y tu hwnt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Mae'n bosibl na fydd gan y gwledydd hyn yr un cyfreithiau diogelu data â'r DU a'r AEE, felly hwyrach na fydd eich Data Personol yn derbyn yr un amddiffyniad. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw Ddata Personol a gaiff ei drosglwyddo y tu hwnt i'r AEE yn destun camau diogelu priodol fel petai'n cael ei brosesu y tu fewn i'r AEE ac o dan yr egwyddorion a bennir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd yma.

## 8. Am ba mor hir fyddwn ni'n cadw eich Data Personol

Rydyn ni'n cadw manylion bilio a gohebiaeth cwsmeriaid am 7 mlynedd ar ôl cau'r cyfrif. Rydyn ni'n cadw recordiadau o alwadau am 12 mis.

## 9. Penderfyniadau a phroffilio awtomatig

Nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau'n awtomatig yn ôl diffiniad y cyfreithiau Diogelu Data.

Rydyn ni'n defnyddio proffilio yng nghyd-destun y gwasanaethau a ddarparwn a dadansoddiadau cwsmeriaid. Y gwaith prosesu yma yw'r sail ar gyfer dadansoddi data, gwaith ymchwil ystadegol, a dadansoddi tueddiadau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarparwn, datblygu'r busnes a systemau, pennu rhagolygon a chyfraniadau eraill er mwyn datblygu a gwella ein gweithgareddau busnes.

## 10. Cwcis

Gweler ein Polisi Cwcis ar ein gwefan am fanylion ein defnydd o gwcis.

## 11. Eich Hawliau Diogelu Data

Mae gennych rai hawliau penodol mewn perthynas â'ch Data Personol, a gallwch gyflwyno gwahanol fathau o Geisiadau Hawliau Gwrthrych Data mewn perthynas â'r Data Personol sydd gennym amdanoch chi. Er na fydd pob un o'r hawliau hyn yn berthnasol ym mhob sefyllfa, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n delio ag unrhyw gais sy'n dod i law mewn ffordd sy'n amddiffyn eich hawliau a'ch rhyddid, ac mewn cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau Diogelu Data.

I gyflwyno Cais Hawliau Gwrthrych Data:

E-bostiwch ni yn: **DataSubjectRightsRequests@dwrcymru.com;**

Ysgrifennwch atom yn: Gwasanaethau Cwsmeriaid, Tîm Ceisiadau Hawliau Gwrthrych Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT; neu

Cliciwch **yma** am ein ffurflen Gais am Hawliau Gwrthrych Data.

Gall unrhyw unigolyn y mae gennym wybodaeth yn eu cylch gyflwyno Cais am Hawliau Gwrthrych Data. Gall trydydd parti gyflwyno cais ar ran unigolyn (e.e. perthynas, ffrind, cyfreithiwr), ond bydd angen caniatâd yr unigolyn o dan sylw arnom cyn y gallwn ddarparu unrhyw Ddata Personol amdanynt i'r trydydd parti.

O dan rai amgylchiadau penodol, yn gyfreithiol mae gennych chi'r hawl i:

— Ofyn am gael cyrchu eich Data Personol (sef "Cais i Gyrchu gan Wrthrych Data"). Mae hyn yn caniatáu i chi dderbyn copi o'r Data Personol sydd gennym amdanoch chi, a sicrhau ein bod ni'n ei brosesu mewn ffordd gyfreithlon;

— Gofyn am gywiriad i'r Data Personol sydd gennym amdanoch chi (neu "unioni"). Mae hyn yn eich galluogi chi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi;

— Gofyn am gael dileu eich Data Personol. Yn amodol ar rai amodau penodol, mae hyn yn caniatáu i chi ofyn i ni ddileu neu dynnu Data Personol (e.e. lle nad oes angen eich Data Personol at y diben y cafodd ei gasglu mwyach, neu lle mae'r prosesu o dan sylw yn anghyfreithlon). Mae gennych chi'r hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu dynnu eich Data Personol lle'r ydych chi wedi ymarfer eich hawl i wrthwynebu ei brosesu ac nad oes yna fudd dilys pwysicach i ni barhau â'r prosesu yna (gweler isod);

- Gwrthwynebu prosesu eich Data Personol lle'r ydyn ni'n dibynnu ar fudd dilys (neu fuddion trydydd parti), lle'r ydyn ni'n prosesu Data Personol ar gyfer tasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom ni ac mae yna ryw agwedd ar eich sefyllfa benodol chi sy'n golygu eich bod am wrthwynebu ei brosesu ar y sail yma;

— Gofyn am gyfyngu ar brosesu eich Data Personol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni atal prosesu eich Data Personol (e.e. os ydych am i ni sefydlu ei gywirdeb neu'r rheswm dros ei brosesu);

— Tynnu eich caniatâd i brosesu yn ôl. Lle mae prosesu eich Data Personol yn amodol ar eich caniatâd chi, mae gennych chi'r hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd. Os penderfynwch chi dynnu eich caniatâd yn ôl, byddwn ni'n stopio prosesu eich Data Personol at y diben hwnnw oni bai bod yna sail gyfreithiol arall y gallwn ddibynnu arni - ac os felly, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi. Ni fydd tynnu eich caniatâd yn ôl yn effeithio ar unrhyw waith prosesu a gyflawnwyd hyd at y pwynt yna;

— Gwneud cais i drosglwyddo'ch Data Personol i ddarparydd gwasanaeth arall (h.y. yr Hawl i Gludadwyedd) os ydyn ni'n dibynnu ar eich caniatâd i brosesu'r Data Personol yna;

— I beidio â bod yn destun penderfyniad sy'n llwyr seiliedig ar "brosesu awtomatig". Nid ydym yn cyflawni unrhyw waith prosesu awtomatig ar hyn o bryd.

Ni fydd angen i chi dalu ffi i gyrchu eich Data Personol (nac i ymarfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol arnoch os yw'ch cais i'w gyrchu yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Fel arall, gallwn wrthod cydymffurfio â'r cais o dan amodau o'r fath.

Mae'n bosibl y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu ni i gadarnhau pwy ydych chi, a sicrhau eich hawl i gyrchu'r wybodaeth (neu i ymarfer unrhyw hawliau eraill sydd gennych). Mesur diogelu priodol arall yw hwn i sicrhau nad yw Data Personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw berson arall nad oes ganddynt yr hawl i'w dderbyn.

Mae gennych chi'r hawl i godi cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef Rheoleiddwr Diogelu Data y DU hefyd. Mae rhagor o fanylion ar wefan yr ICO yn **ico.org.uk**.

## 12. Diweddaru ein Hysbysiad Preifatrwydd

Byddwn ni'n diweddaru ein Hysbysiad Preifatrwydd wrth i brosesau a gweithdrefnau ein busnes, a/neu'r cyfreithiau Diogelu Data newid. Bydd y fersiwn ddiweddaraf ar ein gwefan bob tro.

## 13. Hysbysiad Preifatrwydd ein Canolfannau Atyniadau Ymwelwyr

Am fanylion sut rydyn ni'n ymdrin â Data Personol ymwelwyr ein Canolfannau Atyniadau Ymwelwyr, darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd ein Canolfannau Ymwelwyr.